# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

# DYDD GWENER, 12 IONAWR 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: J.Hurley (Cadeirydd) W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

D.Griffiths, M.Roberts, C.Morris, J.Stevens. A. Collins, T.Rees a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion Craffu:**

Cynghorydd: S.Pursey a/ac T.Bowen

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd J Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

7. **DEDDF CŴN PERYGLUS 1991: CWN XL BULLY STRAE AC WEDI'U GADAEL - NEWID MEWN ARFER GWEITHREDOL**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

8. **CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL - DIWEDDARIAD GAN GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

9. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid diwygio'r Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Comcen Computer Supplies Ltd (C076) | 61,111 |
| IDNS Ltd (I020) | 61,111 |

Cwmnïau a gyflwynodd cais i gael eu cynnwys ar y rhestr ar gyfer categorïau ychwanegol ac sydd wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| BFL Engineering Services Ltd (B023) | 37,38,39,40 |

Cwmnïau i’w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy oherwydd eu statws cwmni ‘yn nwylo gweinyddwyr":

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Jehu Project Services Ltd (J014) | 14 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol. Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

10. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: RHODFA'R PARC A SIDING TERRACE (DIRYMU) A GORCHYMYN (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid gwrthod y gwrthwynebiadau i Rodfa'r Parc a Siding Terrace (Dirymu) a (Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2023, (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a rhoi'r cynllun ar waith fel yr hysbysebwyd. Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar Rodfa'r Parc a Siding Terrace o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith mewn ardaloedd trefol ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

11. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: LÔN Y TU ÔL I RIFAU 1 I 17, STRYD Y GORON, PORT TALBOT, GORCHYMYN (DIRYMU DIM MYNEDIAD) 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid gwrthod y gwrthwynebiad i'r lôn y tu ôl i rifau 1 i 17 Stryd y Goron, Port Talbot (Dirymu Dim Mynediad) Gorchymyn 2023 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a rhoi'r cynllun ar waith, fel yr hysbyswyd, a'i fonitro wrth symud ymlaen. Hysbysir y gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen dirymu'r gorchymyn rheoleiddio traffig presennol er mwyn sicrhau bod digon o hyfywedd a mynediad ar gyfer cerbydau casglu gwastraff/sbwriel er budd diogelwch ar y briffordd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

12. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: FFORDD Y DYWYSOGES MARGARET, SANDFIELDS, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu'r gorchmynion rheoleiddio traffig Cyfyngiad Aros Cyfyngedig i 2 awr, Dim Dychwelyd o fewn 2 Awr, 8.00am i 8.00pm, 1 Ebrill i 30 Medi gyda thaliad drwy MiPermit neu dros y ffôn am uchafswm arhosiad o 2 awr ac Eithrio Deiliaid Bathodyn Anabledd ar Ffordd y Dywysoges Margaret, Sandfields, Port Talbot (fel y nodir yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd); ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, caiff y cynigion eu rhoi ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoli traffig arfaethedig yn sicrhau trosiant digonol o gerbydau a fydd yn gwella ac yn caniatáu i'r amgylchedd a mwynderau lleol gael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

13. **GRANT EIDDO MASNACHOL: HEN GLWB Y LLENG BRYDEINIG, HEOL EASTLAND, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, a disgrifiad o'r argymhelliad, caiff y grant a nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Castell-nedd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

14. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

15. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

16. **ADOLYGIAD O'R CERBYDLU A DEPO A DATBLYGU CYNLLUN TRAWSNEWID CERBYDLU 5 MLYNEDD - PENODI YMGYNGHORWYR (WEDI'I EITHRIO O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, gomisiynu gwasanaethau ymgynghori mewn perthynas ag Adolygiad o'r Cerbydlu a datblygu 'adolygiad' o ffrwd waith y cynllun trawsnewid cerbydlu 5 mlynedd a nodwyd fel rhan o gynllun ariannol tymor byr a chanolig y Cyngor;

2. rhoi caniatâd i ddatgymhwyso Rheol 7.3 o Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a dyfarnu contract i ymgynghorwyr yn uniongyrchol; EDGE Public Solutions, drwy Fframwaith Ymgynghori ESPO sector cyhoeddus; a

3. rhoi cymeradwyaeth i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, gwblhau'r cytundeb angenrheidiol a'r dogfennau cysylltiedig, gan ddefnyddio Fframwaith ESPO er mwyn hwyluso'r hyn a nodwyd uchod.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad:</u>**

Bydd Awdurdod Dirprwyedig yn sicrhau caffael brys o ymgynghorwyr i gynnal momentwm wrth drawsnewid y gwasanaeth cerbydlu a sicrhau systemau newydd addas a fydd yn cynnal y gwasanaeth cerbydlu a rheng flaen. Bydd hyn hefyd yn rhoi ateb ar unwaith i'r Cyngor i leddfu'r pwysau ar adnoddau mewnol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 16 Ionawr 2024.

**CADEIRYDD**